

Dydd Mawrth, 17 Hydref 2023

Annwyl Cynghorydd

PENDERFYNIADIAU AELOD CABINET UNIGOL

Hysbysir drwy hyn y caiff y penderfyniadau dilynol a wnaed gan aelod o'r cabinet eu gwneud **Dydd Mercher, 25ain Hydref, 2023,**.

AGENDA

1. GWEITHGOR CRONFA EGLWYS CYMRU

CABINET MEMBER: County Councillor Ben Callard**AUTHOR:**

David Jarrett – Senior Accountant – Central Finance Business Support

CONTACT DETAILS

Tel. 01633 644657

e-mail: davejarrett@monmouthshire.gov.uk

Yr eiddwch yn gywir,

Paul Matthews
Prif Weithredwr

PORTFFOLIOS CABINET

Cynghorydd Sir	Meysydd o Gyfrifoldeb	Ward
Mary Ann Brocklesby	<p>Yr Arweinydd Swyddogion Arweiniol - Paul Matthews, Matthew Gatehouse</p> <p>Strategaeth a Chyfeiriad yr Awdurdod Cyfan Adolygu a gwerthuso perfformiad yr awdurdod cyfan Hyrwyddo lleoliaeth o fewn fframweithiau rhanbarthol a chenedlaethol Perthynas â Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a chymdeithasau llywodraeth leol Cysylltiadau Rhanbarthol â Rhanbarthau Dinesig a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caffael Strategol Cynhyrchu a defnydd bwyd lleol, a chaffael gan gynnwys amaethgoedwigaeth a garddwriaeth leol</p>	Llanelly
Paul Griffiths	<p>Aelod Cabinet dros Gynllunio a Datblygu Economaidd a'r Dirprwy Arweinydd Swyddog Arweiniol - Frances O'Brien</p> <p>Strategaeth Economaidd Cynllun datblygu lleol a chynllun datblygu strategol gan gynnwys safleoedd tai strategol Digartrefedd, darpariaeth dai fforddiadwy a thai sector preifat (cartrefi gwag, cynllun prydlesu, benthyciadau gwella cartrefi, grantiau cyfleusterau i'r anabl a thechnoleg addasol) Cefnogi Canol Trefi gan gynnwys parcio ceir a gorfodi Rheoli Datblygu a Rheoli Adeiladu Sgiliau a Chyflogaeth Cysylltedd band eang Meysydd parcio a gorfodaeth sifil safonau masnach, iechyd yr amgylchedd, iechyd y cyhoedd, trwyddedu</p>	Castell Cas-gwent a Larkfield
Rachel Garrick/Ben Callard (jobshare)	<p>Aelod Cabinet dros Adnoddau Prif Swyddogion – Peter Davies, Frances O'Brien, Matthew Phillips, Jane Rodgers</p> <p>Cyllid gan gynnwys CATC a'r cylch cyllideb blynyddol Buddion Technoleg a gwybodaeth ddigidol Adnoddau dynol, y gyflogres, iechyd a diogelwch Tir ac adeiladau Cynnal a chadw a rheoli eiddo Cynllunio brys</p>	Castell Cil-y-coed

Martyn Groucutt	<p>Aelod Cabinet dros Addysg Swyddogion Arweiniol - Will McLean, Ian Saunders</p> <p>Addysg Blynyddoedd Cynnar Addysg statudol pob oed Anghenion dysgu ychwanegol/cynhwysiant Addysg ôl-16 ac addysg oedolion Safonau a gwelliant ysgolion Dysgu Cymunedol Rhaglen cymunedau cynaliadwy ar gyfer dysgu Gwasanaethau Ieuenctid Cludiant ysgol</p>	Lansdown
Ian Chandler	<p>Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Diogelu a Gwasanaethau Iechyd Hygyrch Swyddog Arweiniol - Jane Rodgers</p> <p>Gwasanaethau Plant Maethu a mabwysiadu Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid Gwasanaethau Oedolion Diogelu plant ac oedolion awdurdod cyfan Anableddau Iechyd meddwl a lles Perthynas â darparwyr iechyd a mynediad at ddarpariaeth iechyd</p>	Parc
Catrin Maby	<p>Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd Swyddogion Arweiniol – Frances O'Brien, Ian Saunders</p> <p>Datgarboneiddio Cynllunio trafndiaeth, trafndiaeth gyhoeddus, priffyrdd a fflyd Cyngor Sir Fynwy Teithio llesol a hawliau tramwy Rheoli gwastraff, gofal stryd, sbwriel, manau cyhoeddus a pharciau Palmentydd a lonydd cefn Lliniaru, rheoli ac adfer llifogydd Cefn gwlad, bioamrywiaeth ac iechyd afonydd</p>	Drybridge
Angela Sandles	<p>Aelod Cabinet dros Gydraddoldeb ac Ymgysylltu Swyddogion Arweiniol – Frances O'Brien,, Matthew Gatehouse, Jane Rodgers</p> <p>Anghydraddoldeb cymunedol a thlodi (iechyd, incwm, maeth, anfantais, gwahaniaethu, ynysu ac argyfwng costau byw) Ymgysylltu â dinasyddion a hyrwyddo democratiaeth gan gynnwys gweithio gyda sefydliadau gwirfoddol Profiad y dinesydd - canolfannau cymunedol, canolfan gyswllt, a gwasanaeth cwsmeriaid a chofrestryddion Canolfannau hamdden, chwarae a chwaraeon Datblygu Twristiaeth a'r Strategaeth Ddiwylliannol</p>	Dwyrain Magwyr a Gwndy

	<p>Cyfleusterau cyhoeddus Gwasanaethau Etholiadol ac adolygu'r cyfansoddiad Cyfathrebu, cysylltiadau cyhoeddus a marchnata Moeseg a safonau Y Gymraeg</p>	
--	---	--

Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

Ein diben

Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy a Chydnerth

Amcanion y gweithiwn tuag atynt

- Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bobl
- Sir lewyrchus a chysylltiedig
- Cynyddu i'r eithaf botensial yr amgylchedd naturiol ac adeiledig
- Llesiant gydol oes
- Cyngor gyda ffocws ar y dyfodol

Ein Gwerthoedd

Bod yn agored. Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

Tegwch. Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwrando ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

Hyblygrwydd. Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

Gwaith Tîm. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatrysyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.

Caredigrwydd – Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb yr ydym yn gweithio gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthnasoedd a'r cysylltiadau sydd gennym â'n gilydd wrth wraidd pob rhyngweithio.